# Y Pwyllgor ar y Rheolau Sefydlog

## CSO(2)-07-06 (p4)

### Dyddiad: 3 Gorffennaf 2006
### Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Bae Caerdydd
### Teitl: Rheol Sefydlog 7 – Y Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn

#### 1. Cefndir

1.1 Ar hyn o bryd, mae Rheol Sefydlog 7 yn cwmpasu:

rheolau'r dadleuon;

hyd areithiau;

siarad fwy nag unwaith;

cadw trefn;

sub judice;

y berthynas â'r Farnwriaeth;

ymddygiad y cyhoedd.

#### 2. Y Rheol Sefydlog newydd

2.1 Yn yr Atodiad, amlinellir rhai o'r newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r Rheol Sefydlog bresennol i ateb gofynion y Mesur a cheir cwestiynau lle y bo opsiynau ar gael. Pan fydd y Pwyllgor wedi cytuno ar gynnwys y Rheol Sefydlog newydd, bydd y Clercod yn drafftio Rheol Sefydlog newydd i'r Pwyllgor gytuno arni.

#### 3. Darpariaethau'r Mesur

3.1 Nid yw Mesur Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at y drefn mewn Cyfarfodydd Llawn ac eithrio'r pwyntiau isod mewn perthynas â'r Rheolau Sefydlog:

rhaid iddynt gynnwys darpariaeth ar gyfer cadw trefn yn nhrafodion y Cynulliad, gan gynnwys darpariaeth i atal ymddygiad a fyddai'n dramgwydd troseddol neu'n ddirmyg llys, ynghyd â rheol sub judice [cymal 31(2)]

cânt gynnwys darpariaeth ar gyfer gwahardd Aelod Cynulliad o drafodion y Cynulliad [cymal 31(3)]

cânt gynnwys darpariaeth ar gyfer tynnu oddi ar Aelod Cynulliad unrhyw hawliau a breintiau a roddir i Aelodau'r Cynulliad, neu'r holl hawliau a breintiau hynny [cymal 31(4)]

cânt gynnwys darpariaeth sy'n ymwneud â'r amodau y mae'n ofynnol i'r cyhoedd gydymffurfio â nhw pan fyddant yn bresennol yn nhrafodion y Cynulliad (gan gynnwys darpariaeth ar gyfer neilltuo unrhyw aelod o'r cyhoedd nad yw'n cydymffurfio â'r amodau hynny) [cymal 31(5)(b)]

## 4. Materion i'w hystyried

4.1 Er mai teitl Rheol Sefydlog 7 yw'r Drefn yn y Cyfarfodydd Llawn, mae rhai o elfennau'r Rheol Sefydlog yn gymwys i drafodion Pwyllgorau hefyd.

4.2 Felly, er mwyn sicrhau bod y Rheolau Sefydlog mor syml ac mor glir â phosib, rydym yn cynnig bod Rheolau Sefydlog ar wahân yn cael eu llunio ar gyfer y drefn mewn Cyfarfodydd Llawn a'r drefn mewn cyfarfodydd Pwyllgor. Os yw'r Pwyllgor yn cytuno, bydd Rheol Sefydlog 7 yn ymwneud â'r drefn mewn Cyfarfodydd Llawn yn unig. Caiff Rheol Sefydlog arall sy'n ymwneud â'r drefn mewn cyfarfodydd Pwyllgor ei drafftio a'i chyflwyno i'r Pwyllgor maes o law; bydd wedi'i geirio'n debyg i Reol Sefydlog 7, ond bydd yn adlewyrchu'r amgylchiadau gwahanol mewn pwyllgorau.

4.3 Ar hyn o bryd, defnyddir y term "trafodion y Cynulliad" mewn rhai rhannau o Reol Sefydlog 7 ac, at ddibenion y Rheolau Sefydlog presennol, mae'r term yn disgrifio trafodion cyfarfodydd llawn a phwyllgorau / is-bwyllgorau'r Cynulliad.

4.4 Yn y dyfodol, defnyddir y term "trafodion y Cynulliad" ["Assembly proceedings"] i ddisgrifio trafodion cyfarfodydd llawn a chyfarfodydd pwyllgorau / is-bwyllgorau'r Cynulliad, gan adlewyrchu'r diffiniad yng nghymal 1(5) y Mesur, a defnyddir "trafodion y Cyfarfod Llawn" ["proceedings of the Assembly"] i ddisgrifio trafodion cyfarfodydd llawn yn unig. Felly, bydd angen newid Rheol Sefydlog 7 i sicrhau bod y derminoleg briodol a chywir yn cael ei defnyddio. Amlinellir y newidiadau angenrheidiol yn yr Atodiad.

## 5. Camau i'w cymryd

5.1 Gwahoddir y Pwyllgor i:

cytuno i gael Rheolau Sefydlog ar wahân ar gyfer y drefn mewn cyfarfodydd llawn a'r drefn mewn cyfarfodydd pwyllgor (paragraff 4.2);

ystyried y cwestiynau yn yr Atodiad a chytuno ar gynnwys Rheol Sefydlog 7.

Uned Weithdrefnau Mesur Llywodraeth Cymru

Mehefin 2006